# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Clive Lloyd | Adran Etholiadol: | St Thomas |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Diolch i bobl St Thomas am y gefnogaeth rwyf wedi'i chael fel cynghorydd ward. Rwyf wedi cynrychioli'r ward ers cael f'ethol ym mis Mai 2012. Hefyd, fi yw Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad. Mae 2015/16 wedi bod yn flwyddyn brysur arall a byddaf yn amlinellu fy ngweithgareddau yn yr adroddiad hwn.

**Cymorthfeydd ward**

Ynghyd â'm cydweithiwr ward, y Cyng. Joe Hale, fe wnaethom gynnal cymorthfeydd ward rheolaidd ar ddydd Sadwrn cyntaf pob mis. Mae'r rhain ar sail rota yn y lleoliadau canlynol:

Neuadd Eglwys St Thomas, Neuadd Eglwys Bae Fabian, Neuadd Eglwys Illtyd Sant, Cenhadaeth Gwyn a Chanolfan Gymunedol Port Tennant.

**Cyfarfodydd preswylwyr**

Rydym hefyd wedi cynnal dau gyfarfod preswylwyr yn y lleoliadau canlynol: Eglwys St Thomas ac Eglwys Gymunedol y Glannau – SA1.

Gall pobl gysylltu â fi ar unrhyw adeg ac mae fy manylion cyswllt ar gael ar wefan Dinas a Sir Abertawe (www.abertawe.gov.uk/cynghorwyr).

**Gwaith yn y ward**

Rwyf wedi ymdrin â llawer o faterion dros y 12 mis diwethaf sydd wedi dod dan y prif gategorïau hyn:

materion tai, tipio anghyfreithlon, tyllau yn y ffordd, problemau parcio/traffig preswylwyr, glanhau strydoedd, cysgodfannau bws, gwneud ffyrdd yn fwy diogel a gweithio gyda chymunedau

Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys:

**Materion tai** – Rwyd wedi cynorthwyo nifer o unigolion gyda'u hymholiadau tai (tenantiaid y cyngor a chymdeithasau tai).
**Tipio anghyfreithlon** – Rydym wedi cael nifer o faterion ar draws y ward, ond mae Stryd Grafog a Heol Cilfái'n enghreifftiau. Rwyf wedi bod yn gweithio gyda swyddogion y cyngor a phreswylwyr i leddfu'r mater hwn.
**Tyllau yn y ffordd** – Adroddais yn rheolaidd ar dyllau yn y ffordd, ond rwyf wedi gweithio gyda Thîm PATCH/Tyllau yn y Ffordd y cyngor i leddfu'r mater hwn. Treuliodd y tîm wythnos gyntaf mis Ebrill 2016 yn St Thomas yn ymdrin â thyllau yn y ffordd yn benodol.
**Materion parcio/traffig preswylwyr** – Yn dilyn ymweliadau gan breswylwyr, gwneuthum gais am nifer o gynlluniau parcio preswylwyr. Mae dau gynllun parhaol yn Stryd Pant a Stryd Tŷ Mawr.
**Glanhau strydoedd** – Cyfarfûm â swyddogion yn rheolaidd i drafod materion glanhau strydoedd. Enghraifft o hyn yw Heol Marcroft lle rydym wedi cael materion gyda glanhau

strydoedd/thipio anghyfreithlon. Diolch hefyd i Steve, casglwr sbwriel y cyngor, sy'n gwneud gwaith penigamp.
**Cysgodfannau bws** – Yn dilyn nifer o geisiadau, gosodwyd cysgodfan bws y tu allan i dafarn y Ship ym mis Ionawr 2016 i amddiffyn defnyddwyr bws yn ystod y glaw a misoedd y gaeaf.
**Gwneud ffyrdd St Thomas yn fwy diogel** – Rydym wedi bod yn gweithio gyda swyddogion y cyngor i wella diogelwch ffyrdd mewn nifer o fannau poblogaidd yn y ward dros y blynyddoedd diwethaf. Ym mis Hydref 2015, cafodd y rhain eu cyfuno yng NGHYNNIG LLWYBRAU MWY DIOGEL St Thomas – a wnaeth gais am gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau a oedd yn cynnwys Heol Foxhole/Stryd Maesteg ac estyn y cyfyngiad cyflymder yn Heol Danygraig. Gobeithir y bydd y cynnig hwn yn llwyddiannus yn nes ymlaen yn 2016/17.
**Gweithio gyda chymunedau** – Rwyf wedi gweithio gyda nifer o grwpiau cymunedol i wella cyfleusterau yn y ward. Mae'r rhain yn cynnwys Cyfeillion Parc Polly, Prosiect Pafiliwn Parc Jersey a Chymdeithas Bowls Parc Jersey/Chymdeithas Bowls Abertawe, Port Tennant Colts/Mile End – Hunanreoli Ashland.

Roeddwn hefyd yn rhan o'r grwpiau cymunedol canlynol:

Ysgolion – Cadeirydd y llywodraethwyr yn Ysgol Danygraig a llywodraethwr yn Ysgol St Thomas.
Cymunedau'n Gyntaf Port Tennant – Euthum i gyfarfodydd y grŵp rheoli'n rheolaidd.
Grŵp Preswylwyr Tir John – Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd â rheolwyr y safle.
Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe – Cynhaliwyd cyfarfodydd i drafod materion yn y dociau/porthladd.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 8 | / | 11 | 73 | % |
| Cabinet | 11 | / | 15 | 73 | % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Y Cyngor | 14 | / | 18 | 78 | % |
| Panel Ariannu Allanol | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Cyd-bwyllgor Ymgynghorol | 5 | / | 5 | 100 | % |
| Pwyllgor y Gronfa Bensiwn | 4 | / | 4 | 100 | % |
| Pwyllgor Safonau | 5 | / | 6 | 83 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe - Partneriaeth Preswylwyr | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **60** | **/** | **73** | **82** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Yn ogystal â bod yn gynghorydd ward lleol ar gyfer St Thomas, hefyd fi yw/oedd Aelod Cabinet Dinas a Sir Abertawe dros Drawsnewid a Pherfformiad, â chyfrifoldeb arweiniol dros y meysydd canlynol.

Trawsnewid Gwasanaethau'r Cyngor – Abertawe Gynaliadwy/Addas ar gyfer y Dyfodol
Cyfathrebu a Chynnwys

Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (Cynghorwyr)
Gwasanaethau Ariannol y Cyngor
Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol
Cyswllt Cwsmeriaid a Boddhad Cwsmeriaid
Craffu'r Cyngor
Risg a Gwydnwch Dinas a Sir Abertawe
Hyfforddi a Datblygu Cynghorwyr
Polisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor
Comisiynu Gwasanaethau'r Cyngor
Deall y Galw am Wasanaethau'r Cyngor
Rheoli Proses Gyllideb y Cyngor

Ym mis Medi 2015, cynrychiolais y cyngor yn 3edd Gynhadledd Dinas Dysgu UNESCO Dinas Mecsico lle roedd Abertawe'n un o 12 dinas yn unig yn y byd a gafodd gydnabyddiaeth fel Dinas Dysgu Gydol Oes ardderchog.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

-

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r hyfforddiant canlynol:

04/05/2016 - Datblygu Economeg a Dichonoldeb Ariannol
19/04/2016 - A. 106 Cytundebau/Rhwymedigaethau Cynllunio
18/04/2016 - Arweiniad ar yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chraffu ar Newidiadau i'r Gwasanaethau Cymunedol
09/02/2016 - Diogelu Pobl Ddiamddiffyn
20/10/2015 – Rolau a Chyfrifoldebau (Llywodraethwyr)
08/06/2015 - Cyfryngau a Sgiliau Cyfweliad

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Gwaith trin carthffosiaeth – Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi bod yn gweithio gyda swyddogion y cyngor a phreswylwyr i leihau perygl arogleuon o'r gwaith ar Fae Fabian. Er gwaethaf ein hymdrechion gorau a sicrwydd Dŵr Cymru, mae problemau o hyd yn 2016.

Campws SA1 Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant – Cyfarfu fy nghydweithiwr ward a minnau'n rheolaidd â chynrychiolwyr PCYDDS ar ddatblygu'r campws newydd a sicrhau bod y gymuned yn cael ei chynnwys lle bynnag y bo modd.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £32,000
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 18.05.2016 |